
# Caer Rufeinig Gelligaer








Er bod y fyddin Rufeinig wedi dechrau goresgyn Prydain yn 43 O.C., roedd y gwrthsafiad cryf gan y Silures (y llwyth Celtaidd lleol) wedi atal yr ardal yma rhag cael ei goresgyn yn llwyr tan oddeutu tri deg o flynyddoedd wedyn.

I ddiogelu eu safle, adeiladodd y Rhufeiniaid rwydwaith o gaerau a ffyrdd. Mae'n debyg bod y gaer gyntaf yng Ngelligaer wedi'i hadeiladu oddeutu 75 O.C., o bren a phridd yn bennaf bryd hynny. Cafodd y gaer garreg lai, y mae olion o'i gweddillion i'w gweld o hyd, ei hadeiladu oddeutu tri deg o flynyddoedd wedyn yn ystod teyrnasiad yr Ymherodr Trajan. Mae'r wybodaeth yma i'w gweld ar y garreg gyda'r arysgrif arni a ddaeth o'r porth de-ddwyreiniol.

Roedd ar y ffordd rhwng Caerdydd a'r Gaer (ger Aberhonddu). Y ddwy gaer agosaf ati oedd y rhai yng Nghaerffili (6 milltir i'r de) a Phenydarren ym Merthyr Tudful (8 milltir i'r gogledd orllewin).

Cawsai ei gwarchod gan filwyr ategol dan arweiniad yr Ail Leng Awgwstaidd yng Nghaerleon (Isca). Mae'n debyg mai cohors quingenaria peditata oedden nhw – sef uned o 500 o w_r traed. Roedd rhai unedau ategol yn cynnwys gw_r traed a gw_r meirch ond mae rhai pobl wedi awgrymu mai dim ond gw_r traed oedd yng Ngelligaer.

Roedd y gaer yn siâp sgwâr bras ac yn gorchuddio tua 3 erw o dir. Roedd ei chynllun yn nodweddiadol o gaerau eraill tebyg. Cafodd ei hadeiladu ar esgair o dir rhwng Cymoedd Taf a Rhymni, felly roedd yr olygfa eang oedd ganddi dros y darn o gefn gwlad oedd o'i chwmpas yn fanteisiol iawn i'r bobl oedd yn ceisio ei hamddiffyn.

Roedd pedwar porth dwbl siâp bwa ganddi i bobl fynd i mewn iddi ac roedd wedi'i hamddiffyn yn dda. Roedd ffos lydan y tu allan iddi ac roedd ganddi ragfur o bridd gyda wal garreg ar y ddwy ochr iddo. Roedd gan y wal dyrau cornel a thyrau eraill yma ac acw ar ei hyd.

Roedd y milwyr yn byw mewn chwe bloc o farics. Yng nghanol y gaer roedd y pencadlys a, gerllaw hwnnw, roedd cartref y cadlywydd. Ymysg yr adeiladau eraill roedd gweithdy gyda buarth, dwy ysgubor ac ystafelloedd oedd mae'n debyg yn stordai a stablau. Y tu allan i'r brif gaer ond y tu mewn i estyniad caerog roedd y baddondy. Gerllaw'r gaer roedd maes parêd y gallent ei ddefnyddio ar gyfer diwrnodau dathlu crefyddol a dril milwrol.

Parhaodd pobl i ddefnyddio'r gaer hyd flynyddoedd hwyr yr ail ganrif ac mae tystiolaeth i ddangos fod pobl wedi dod yn ôl i fyw yno ar ryw gyfnod rhwng y drydedd ganrif hwyr a chanol y bedwaredd ganrif. Does dim llawer o dystiolaeth ar gyfer y cyfnod yma felly mae'n amhosibl dweud a oedd wedi'i defnyddio gan filwyr neu gan bobl gyffredin. Does neb yn gwybod pryd y gadawyd y gaer yn wag am y tro olaf.